FIN(6)-24-25 P2

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Gwybodaeth ategol ar gyfer yr Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2027

Hydref 2025

# Cynnwys


Crynodeb o’r Amcangyfrif 3

- Trosolwg o Amcangyfrif 2026-27 3
- Ein hymateb i'r Datganiad o Egwyddorion 4

Gwerth am Arian yn Archwilio Cymru 5

Ein Cyllideb 2026-27 8

Ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru 2026-27 12

Cynllun Ariannol Tymor Canolig 21

**Atodiadau 22**

1 Cyllideb Fanwl 2026-27 23

2 Cynllun Ffioedd Drafft 2026-27 27

# Crynodeb o'r Amcangyfrif

## Trosolwg o Amcangyfrif 2026-27

1 Gyda'r amcangyfrif hwn rydym yn gofyn am gynnydd i'n galwad sylfaenol ar gyllid o Gronfa Gyfunol Cymru yn 2026-27 o 3.5% sy'n arwain at gynnydd o 2.9% ar y cyfan yn ein gofynion o ran adnoddau a chynnydd o 4.6% mewn arian parod o'i gymharu â 2025-26.

2 Caiff prif ysgogwyr y newid yn ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf eu nodi yn **Arddangosyn 3** ar dudalen **13**: Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Y cynnydd yng nghyfraddau ein ffioedd sy'n gysylltiedig â'r rhan honno o'n gwaith archwilio a gyllidir o Gronfa Gyfunol Cymru
- Codiadau cyflog chwyddiannol
- Buddsoddi yn ein rhaglen 'Gorwelion Archwilio'
- Gostyngiad pellach yn ein gofynion buddsoddi cyfalaf y tu hwnt i'r hyn a adlewyrchwyd yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2025-26.

3 Roedd ein Hamcangyfrif ar gyfer 2025-26 yn darparu ar gyfer cynnydd yn ein hincwm ffioedd o £1,134,000 (6.5%) i'n galluogi i gyflawni rhagor o waith archwilio nag mewn blwyddyn nodweddiadol wrth i ni leihau ein hôl-groniad o waith archwilio. Gan ein bod yn disgwyl gorffen cyflawni gwaith i glirio ein hôl-groniad archwilio yn ystod 2026-27 byddwn yn gweld lleihad cysylltiedig yn ein hincwm ffioedd a'n gwariant o ganol y flwyddyn honno.

4 Ceir rhagor o wybodaeth am ein cynigion ar gyfer incwm ffioedd ar dudalen **9**.

## Ein hymateb i'r Datganiad o Egwyddorion

5 Ym mis Mai 2019, fe gyhoeddodd Pwyllgor Cyllid y Senedd Ddatganiad o Egwyddorion i Gyrff a Gyllidir yn Uniongyrchol ei ystyried wrth baratoi eu Hamcangyfrifon blynyddol.

6 Ar 11 Gorffennaf 2025 fe ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn nodi'r sefyllfa 3 blynedd o ran adnoddau ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru – cynnydd o 3% y flwyddyn rhwng 2026-27 a 2028-29 (1.2% y flwyddyn mewn termau real).

7 Mae'r llythyr yn cyfeirio at ragolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ar gyfer datchwyddydd cynnyrch domestig gros o 2.6% yn 2025-26 ac 1.7% yn 2026-27 – a hynny yng nghyd-destun chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr disgwyliedig o 3.2% yn 2025-26 ac 1.9% yn 2026-27.

8 Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol hefyd yn rhagweld cynnydd mewn enillion cyfartalog o 3.7% yn 2025-26 a 2.2% yn 2026-27.

9 Y neges graidd yw bod gan Lywodraeth Cymru setliad rhesymol ar gyfer y 3 blynedd nesaf ond bod angen ystyried hyn yng nghyd-destun pwysau sylweddol a chynyddol ar gostau darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol.

10 Mae Llywodraeth Cymru'n cynllunio cyllideb 'busnes fel arfer' ar gyfer 2026-27 i ddarparu adnoddau ychwanegol i'r Senedd nesaf eu dyrannu i'w blaenoriaethau.

11 Rydym wedi ymateb i'r Datganiad o Egwyddorion, a llythyr Ysgrifennydd y Cabinet, trwy:

- Adnabod mesurau effeithlonrwydd yn ein prosesau sefydliadol i leihau i'r eithaf y cynnydd yn y cyllid y gofynnir amdano o Gronfa Gyfunol Cymru a'n ffioedd archwilio ar gyfer 2026-27.
- Nodi yn y ddogfen hon sut yr ydym yn ceisio cynyddu gwerth am arian i'r eithaf yn Archwilio Cymru; a
- Darparu tystiolaeth ar gyfer newidiadau yn ein gofynion cyllido yn 2026-27.

# Gwerth am arian yn Archwilio Cymru

## Gwerth archwilio cyhoeddus

12 Mae archwilio'n darparu tryloywder ac atebolrwydd i drethdalwyr a'u cynrychiolwyr etholedig. Mae'n darparu gwybodaeth ariannol gywir, ddibynadwy i gyrff cyhoeddus ei defnyddio i gynllunio a rheoli eu gwasanaethau a'u cyllid yn effeithiol.

13 Mae archwilio'n sicrhau bod y Senedd, cyrff cyhoeddus a'r cyhoedd yn cael asesiad annibynnol o gyflwr rheoli ariannol a chorfforaethol yn y sector cyhoeddus a rhybudd cynnar o broblemau a allai godi. Pan fo ansawdd neu amseroldeb archwilio'n lleihau, mae'r risgiau o wastraff, twyll a chamreoli'n cynyddu.

14 Yn Lloegr, mae mesurau sylweddol i ymdrin ag ôl-groniad sy'n gwaethygu mewn archwilio lleol ac adfer tryloywder ac atebolrwydd o ran sut y caiff arian cyhoeddus ei wario wedi cael eu cyhoeddi gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

15 Mae adroddiad diweddar gan Audit Reform Lab yn trafod methiant archwilio cyhoeddus yn Lloegr a'r costau sylweddol sy'n gysylltiedig â hyn. Dengys yr adroddiad fod archwilio cyhoeddus yng Nghymru mewn sefyllfa well a mwy cost-effeithiol o lawer.

16 Ond ni allwn fod yn hunanfodlon – rydym yn dal ar ei hôl hi o ran ble y dylem fod ond rydym wrthi yn awr yn gweithio'n gyflym trwy ein hôl-groniad o archwiliadau gan amcanu at glirio ein hôl-groniad archwilio erbyn diwedd 2026. Fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar allu cyrff Llywodraeth Leol i ddarparu cyfrifon drafft a ategir gan dystiolaeth dda ar ein cyfer a hynny mewn modd amserol.

17 Mae'r Amcangyfrif hwn wedi'i fwriadu i gynnal y momentwm ar gyfer y gwaith hwn ond mae hefyd yn cadw llygad ar archwilio yn y dyfodol fel nad ydym yn peryglu'r cynnydd da sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd.

## Ein perfformiad hyd yma


18 Rydym yn llwyr ymwybodol o bwysigrwydd dangos ein bod yn cyfyngu ar ein costau ni ein hunain ac yn darparu gwerth am arian.

19 Yn Archwilio Cymru, rydym yn ymegnïo'n barhaus i ddarparu swyddogaeth archwilio cyhoeddus o safon fyd-eang ar gyfer sector cyhoeddus Cymru yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol posibl.

20 Yn y deng mlynedd ddiwethaf rydym wedi lleihau cost archwilio cyhoeddus yng Nghymru 4% mewn termau real[1] er gwaethaf cynnydd yng nghwmpas ein gwaith, mwy o ofynion ar gyfer ansawdd archwilio a safonau archwilio newydd. Caiff y gostyngiad hwn ei gyfleu yn **Arddangosyn 1**. Mae'r codiadau yn 2024-25 a 2025-26 yn cynrychioli'r buddsoddiad ychwanegol mewn staff a oedd yn ofynnol i glirio'r ôl-groniad o waith archwilio. Ariannwyd hyn o ffioedd yn hytrach na Chronfa Gyfunol Cymru.

21 Mae cyfanswm yr arbedion cronnus a gyflawnwyd dros y blynyddoedd hynny'n fwy na £21 miliwn.

**Arddangosyn 1: cost archwilio cyhoeddus rhwng 2015-16 a 2025-26**




1 Yn seiliedig ar ddatchwyddyddion cynnyrch domestig gros a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Mehefin 2025.

22 Rydym wedi gwneud yr arbedion hyn trwy:

- ail-lunio ein gweithlu'n sylweddol. Rydym wedi lleihau cyfran y cyfarwyddwyr a rheolwyr yn ein gweithlu ac wedi buddsoddi mewn rhaglen hyfforddi graddedigion a phrentisiaid – gan ddarparu cyfleoedd i'r rhai sy'n gadael yr ysgol a graddedigion yng Nghymru a gwella symudedd cymdeithasol yn ogystal â darparu rheolwyr ariannol y dyfodol ar gyfer sector cyhoeddus Cymru.
- mewnoli ein gwaith archwilio. Ers 2021-22 nid ydym yn defnyddio cwmnïau yn y sector preifat i wneud ein gwaith archwilio mwyach. Yn hyn o beth rydym yn unigryw ymhlith cyrff archwilio cyhoeddus y DU. Er bod hyn yn ychwanegu at y pwysau ar staff Archwilio Cymru i gyflawni gwaith, mae wedi diogelu pwrs y wlad rhag codiadau sylweddol mewn prisiau am y gwaith hwn a brofir gan asiantaethau archwilio eraill y DU.
- lleihau cost teithio o £1.2 miliwn yn 2019-20 i ychydig dros £200,000 yn yr Amcangyfrif hwn. Fe wnaethom negodi gyda'n hundebau llafur i gael gwared ar y lwfans teithio yr arferid ei dalu i'n staff archwilio, ac rydym wedi newid y ffordd yr ydym yn gweithio er mwyn teithio llai ar y cyfan – gan ddarparu effeithlonrwydd amgylcheddol yn ogystal ag effeithlonrwydd o ran costau.
- rydym wedi symud i swyddfeydd sy'n llai, sy'n rhatach ac sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon ledled Cymru, sy'n diwallu anghenion y busnes yn well, gan arbed oddeutu £250,000 bob blwyddyn er gwaethaf costau uwch cyfleustodau.
- rydym yn mynd ati'n barhaus i herio ein cyllidebau ar gyfer eitemau heblaw cyflogau a'n model gweithredu i gyflawni effeithlonrwydd lle y bo'n bosibl.
- rydym yn defnyddio technoleg a dadansoddeg data i gyflawni ein gwaith archwilio mewn modd mor effeithlon â phosibl a theithio gyn lleied â phosibl ledled Cymru.

23 Ar gyfer 2026-27, rydym wedi pennu targed arbedion uchelgeisiol o £300,000 i ni ein hunain ar draws ein costau nad ydynt yn gostau archwilio – sy'n gyfwerth â gostyngiad o 7% arall yn ein gorbenion.

# Ein cyllideb 2026-27

## Cyllideb 2026-27

24 Mae oddeutu drwy ran o dair o gostau rhedeg Archwilio Cymru'n cael eu cyllido â ffioedd yr ydym yn eu codi ar gyrff a archwilir am ein gwaith. Mae'r traean sy'n weddill, ynghyd â'r holl wariant cyfalaf, yn cael ei gyllido'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru – ceir rhagor o fanylion am hynny yn y bennod nesaf.

25 Mae'r Amcangyfrif hwn yn disgrifio cyfanswm ein cyllideb ar gyfer 2026-27 gan gynnwys y rhan honno a gyllidir â ffioedd. Mae Cynllun Ffioedd drafft ar gyfer 2026-27, sy'n egluro sut y bydd ffioedd yn cael eu codi ar gyrff a archwilir, wedi'i atodi wrth y ddogfen hon.

26 Mae crynodeb o'n cyllideb refeniw – ynghyd â thablau manwl ar gyfer pob un o benawdau'r gyllideb – wedi'i atodi yn **Atodiad 1**. Darperir rhagor o fanylion am ein costau mwyaf sylweddol isod.

### Costau staff

27 Mae ein cyllideb yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflogi 293 o staff cyfwerth ag amser llawn (CagALl) – o'i gymharu â 305 o staff CagALl yn 2025-26. Mae'r gostyngiad mewn lefelau staffio'n gysylltiedig â'n cynllun i fod wedi ymdrin â'r ôl-groniad mewn gwaith archwilio a gynyddodd yn ystod pandemig Covid erbyn diwedd 2026. Mae ein strategaeth ar gyfer y gweithlu'n nodi ein cynlluniau i reoli'r gostyngiad hwn trwy gyfraddau ymadael naturiol, llai o recriwtio a defnyddio contractau byrdymor i osgoi colli swyddi lle y bo'n bosibl.

28 Rydym wedi gwneud darpariaeth ar gyfer codiad cyflog chwyddiannol i'n staff y byddwn yn negodi gyda'n Hundebau Llafur yn ei gylch yn 2026.

29 Rydym hefyd wedi lwfio am arbedion disgwyliedig o ganlyniad i drosiant staff yn ystod y flwyddyn.

30 Hefyd, mae gennym gyllideb sydd wedi'i neilltuo i gyllido aelodau o staff dros dro byrdymor y mae eu hangen i ymateb i frigau mewn llwyth gwaith ac i gyflenwi yn ystod absenoldeb mamolaeth ac absenoldeb oherwydd salwch i sicrhau ein bod yn gallu parhau i gyflawni gwaith archwilio.

## Teithio a Chynhaliaeth

31 Mae Archwilio Cymru wedi lleihau ei gostau teithio a chynhaliaeth yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, trwy gael gwared ar lwfans teithio a oedd yn arfer cael ei dalu i'n staff gweithredol a thrwy newid i ffyrdd mwy cynaliadwy o weithio.

32 Rydym wedi cyflawni gostyngiad pellach yn ein cyllideb ar gyfer teithio a chynhaliaeth yn 2026-27 er bod hyn yn cael ei fonitro'n fanwl wrth i ni newid i fwy o weithio ar safleoedd i sicrhau ein bod yn cynnal ansawdd archwilio.

## Swyddfeydd

33 Mae gan Archwilio Cymru 3 swyddfa weithredol yn gwasanaethu De, Gogledd a Gorllewin Cymru sydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, Cyffordd Llandudno a Phenllergaer yn y drefn honno. Dros y 3 blynedd ddiwethaf rydym wedi cwblhau'r broses o resymoli ein swyddfeydd i adlewyrchu ffyrdd hybrid newydd o weithio – gan arwain at ostyngiad mewn gwariant o fwy na £250,000 bob blwyddyn.

## Ffioedd Archwilio

34 Ar gyfer 2026-27 rydym yn cynllunio i oddeutu 65% o'n gwariant gael ei gyllido â'r ffioedd yr ydym yn eu codi ar gyrff a archwilir. Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ni godi 'dim mwy na chost lawn' y gwaith archwilio ym mhob corff a archwilir. Rydym yn cyfrifo'r gost lawn hon yn seiliedig ar ein cyllideb am y flwyddyn a'r cyfraniad o Gronfa Gyfunol Cymru tuag at ein costau rhedeg.

35 Rydym yn llwyr ymwybodol o'r pwysau ariannol ar bob rhan o'r sector cyhoeddus a'n cyfrifoldeb ninnau am gyflawni ein gwaith archwilio mor effeithlon â phosibl. Rydym yn ymegnïo'n gyson, felly, i leihau i'r eithaf gost archwilio ar y cyfan i gyrff cyhoeddus heb aberthu ansawdd archwilio.

36 Caiff yr incwm a gawn o ffioedd ei reoli gan Gynllun Ffioedd, y mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ni ei gyhoeddi o leiaf yn flynyddol.

37 Wedi'i gynnwys yn y ddogfen Amcangyfrif hon mae ein Cynllun Ffioedd drafft ar gyfer 2026-27 (**Atodiad 2**). Mae hwn wedi cael ei gynnwys i ddangos y gyd-ddibyniaeth rhwng incwm ffioedd a'r Amcangyfrif cymeradwy. Yn dilyn ystyried yr Amcangyfrif a'r Cynllun Ffioedd drafft, byddwn yn gosod ein Cynllun Ffioedd ar gyfer 2026-27 gerbron y Senedd ac yna'n cadarnhau ffioedd amcangyfrifedig ar gyfer blwyddyn nesaf wrth ein cyrff a archwilir.

38 Ym mis Medi 2025, fe wnaethom ymgynghori â’r holl gyrff a archwilir a grwpiau cynrychioliadol ynghylch graddfeydd arfaethedig ein ffioedd ar gyfer 2026-27 a oedd yn lwfio am gynnydd amcangyfrifedig yng nghyfraddau ein ffioedd o 5.5%.

39 Roedd y cynnydd hwn yn dilyn cynnydd sylweddol is na chwyddiant yng nghyfraddau ein ffioedd o 1.7% yn unig yn 2025-26 wrth i ni gynyddu nifer y staff archwilio i helpu i fynd i’r afael â’r ôl-groniad o waith archwilio ar ôl Covid. Roedd yr aelodau ychwanegol hynny o staff yn golygu bod ein gorbenion sefydliadol wedi’u gwasgaru’n deneuach, gan felly gyfrannu at gynnydd yng nghyfraddau ein ffioedd a oedd ymhell islaw chwyddiant.

40 Ar draws y ddwy flynedd – 2025-26 a 2026-27 – mae’r cynnydd yng nghyfraddau ein ffioedd wedi bod yn 7.1% o’i gymharu â chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr o 8% dros yr un cyfnod.

41 Fel a nodir uchod, rydym yn bwriadu bod wedi clirio’r ôl-groniad hwn erbyn diwedd 2026 gyda gostyngiad o ganlyniad yn nifer y staff archwilio ac felly cynnydd yng nghyfraddau ein ffioedd gan bod gennym sylfaen is ar gyfer adennill ein gorbenion. Mae hyn yn uniongyrchol o ganlyniad i’n cyfundrefn gyllido flynyddol a’r gofyniad cyfreithiol i godi dim mwy na chost lawn ein gwaith archwilio mewn unrhyw flwyddyn unigol.

42 Rydym wedi lliniaru effaith hyn trwy bennu targed arbedion uchelgeisiol o £300,000 ar gyfer ein costau nad ydynt yn gostau archwilio.

43 Cawsom 17 o ymatebion yr oedd 10 ohonynt yn amlygu’r cynnydd uwch na chwyddiant yng nghyfraddau ein ffioedd ar gyfer 2026-27. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu ysgrifennu at gyrff a archwilir i egluro'r rhesymau dros y cynnydd hwn a’r hyn yr ydym yn ei wneud i liniaru’r effaith ar ffioedd archwilio.

44 Mae’r Bwrdd wedi myfyrio ynghylch yr ymatebion hyn ac wedi ymateb trwy leihau’r cynnydd arfaethedig i gyfartaledd o 5.3% a’i gwneud yn ofynnol adnabod lefel uwch o arbedion.

## Buddsoddi cyfalaf

45 Mae buddsoddi cyfalaf wedi’i dargedu at brosiectau a fydd yn cyflawni effeithlonrwydd ac arbedion yn y dyfodol; gan sicrhau bod ein darpariaeth TGCh yn gwneud y defnydd gorau o’r dechnoleg sydd ar gael a’n bod yn manteisio ar ddatrysiadau digidol sydd ar gael wrth gyflawni ein gwaith.

46 Mae’r newid yn y diwydiant i ddefnyddio datrysiadau TG cwmwl am rent flynyddol yn hytrach na buddsoddiad sylweddol ymlaen llaw ynghyd â chwblhau ein prosiect gweithleoedd y dyfodol yn golygu ein bod wedi gallu lleihau ein gofyniad am fuddsoddiad cyfalaf ymhellach o 2026-27.

47 Mae gennym raglen newid sefydledig yn Archwilio Cymru i reoli prosiectau newid sydd ar ddod yn effeithiol. Caiff ein gwariant cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2026-27 a’r tu hwnt ei nodi yn **Arddangosyn 2**.

**Arddangosyn 2: buddsoddi cyfalaf rhwng 2025-26 a 2028-29**

| | **2025-26 £’000** | **2026-27 £’000** | **2027-28 £’000** | **2028-29 £’000** | **2029-30 £’000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Newid | 180 | 80 | 80 | 80 | 80 |
| Strategaeth TGCh | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 |
| IFRS16 parthed Swyddfa Gorllewin Cymru | 187 | - | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **467** | **180** | **180** | **180** | **180** |

48 Ceir dadansoddiad manwl o wariant arfaethedig yn 2026-27 isod:

| | **2025-26 £’000** |
|---|---|
| **Rhaglen Newid** | |
| Digideiddio gwaith archwilio | 53 |
| Uwchraddio swyddfeydd | 12 |
| System rheoli dysgu newydd | 15 |
| **Disodli TGCh** | 100 |
| **Cyfanswm** | **180** |

# Ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru 2026-27

## Sut yr ydym yn defnyddio Cronfa Gyfunol Cymru

49 Cyllidir oddeutu 36% o gyfanswm ein cyllideb o Gronfa Gyfunol Cymru gyda’r gweddill yn cael ei gyllido o’r ffioedd yr ydym yn eu codi ar gyrff a archwilir.

50 Caiff ein defnydd arfaethedig o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer 2026-27 o’i gymharu â 2025-26 ei nodi yn **Arddangosyn 3**.

51 Hefyd, cyllidir yr holl fuddsoddiad cyfalaf yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

### Arddangosyn 3: newidiadau yn ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru 2026-27

| | 2026-27 £'000 | 2025-26[2] £'000 | Newid £'000 | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllid ar gyfer gwaith archwilio nas cyllidir trwy ffioedd** | 5,013 | 4,762 | 251 | Nodyn 1 |
| **Cyllid er budd y sector cyhoeddus ehangach:** | | | | |
| • Hyfforddiant ariannol Cymru Gyfan | 927 | 900 | 27 | Nodyn 2 |
| • Y Gyfnewidfa Arfer Da | 652 | 621 | 31 | Nodyn 3 |
| • Costau blynyddol y Fenter Twyll Genedlaethol | 95 | 95 | - | Nodyn 4 |
| **Cyfraniadau at gostau rhedeg** | | | | |
| • Dysgu a Datblygiad Staff | 800 | 800 | - | Cyfraniad gan Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer amser a chost – mae'n tybio y bydd yn ddigyfnewid |
| • Cynnydd mewn pensiwn yn 2019-20 | 732 | 732 | - | Fe'i cyllidir gan y Trysorlys ers 2019-20 – Dim newid |
| • Cynnydd mewn YG yn 2025-26 | 389 | 389 | - | Mae'n tybio y ceir cyllid parhaus o Gronfa Gyfunol Cymru |
| • Bwrdd a chostau cysylltiedig | 320 | 345 | (25) | Mae'n dychwelyd cyllid gwerthuso'r Bwrdd yn 2025-26 |
| • Cydraddoli teithio Cymru gyfan | 200 | 200 | - | Digyfnewid |
| • Rheoli/ cydymffurfiaeth Cronfa Gyfunol Cymru, ansawdd archwilio, amser teithio | 311 | 300 | 11 | Cyfraniad gan Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer costau – mae'n adlewyrchu codiad cyflog |
| • Dadansoddeg Data | 220 | 214 | 6 | Cyfraniad gan Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer costau – mae'n adlewyrchu codiad cyflog |
| • Seiberddiogelwch | 180 | 180 | - | Digyfnewid |
| • Cyfieithu | 90 | 90 | - | Digyfnewid |

2 Amcangyfrif Atodol 2025-26

| | 2026-27 £'000 | 2025-26[2] £'000 | Newid £'000 | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| • Gorwelion Archwilio | 150 | - | 150 | Nodyn 5 |
| • Dibrisiant IFRS16 | 88 | 85 | 3 | Mae'n adlewyrchu'r symud swyddfa yng Ngorllewin Cymru |
| • Buddsoddi cyfalaf | 180 | 280 | (100) | Gweler **Arddangosyn 2** ar dudalen 11 |
| **Llinell Sylfaen Cronfa Gyfunol Cymru** | **10,347** | **9,993** | **354** | **Cynnydd o 3.5%** |
| Cyllid cylchol y Fenter Twyll Genedlaethol | 130 | - | 130 | Nodyn 4 |
| Cyfalaf IFRS16 parthed swyddfa Gorllewin Cymru | - | 187 | (187) | Gostyngiad nad yw mewn arian parod |
| **Cyfanswm Cronfa Gyfunol Cymru (Adnoddau)** | **10,477** | **10,180** | **297** | **Cynnydd o 2.9%** |
| **Addasiadau nad ydynt mewn arian parod** | **(411)** | **(555)** | **144** | **Nodyn 6** |
| **Arian Parod Cronfa Gyfunol Cymru** | **10,066** | **9,625** | **441** | **Cynnydd o 4.6%** |

## Nodyn 1: Gwaith archwilio

52 Cyllidir y rhan fwyaf o'n gwaith archwilio (64%) trwy ffioedd a godir ar gyrff a archwilir gyda chyfraddau ffioedd yn cael eu pennu i adennill yr holl orbenion (ac eithrio'r rhai a gyllidir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru) yn unol â'r gofyniad i godi dim mwy na'r gost lawn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae hyn yn cynnwys ein holl waith archwilio cyfrifon yn ogystal â'n gwaith archwilio perfformiad lleol.

53 Mae gwaith archwilio a gyllidir o Gronfa Gyfunol Cymru'n cael ei gostio ar yr un sail – h.y. gan ddefnyddio cyfraddau'r ffioedd a gyfrifwyd i adennill dim mwy na'r gost lawn ac felly fe'i cynyddwyd yn unol â'r codiadau arfaethedig o 5.3% yng nghyfraddau ein ffioedd ar gyfer 2026-27.

54 Mae gwaith archwilio a gyllidir trwy Gronfa Gyfunol Cymru'n cynnwys:

- Archwiliadau ac Astudiaethau Gwerth am Arian Cenedlaethol a gwaith cysylltiedig.

  Mae rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn ategu gwaith craffu'r Senedd. Cyflwynir adroddiadau ar yr astudiaethau hyn i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd ac fe'u disgrifir yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025-26.

  Defnyddir y cyllid hwn hefyd i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

  Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn un o'r mecanweithiau allweddol i'r Senedd ddwyn sefydliadau sy'n cael cyllid cyhoeddus i gyfrif. Rydym felly'n amcanu at sicrhau bod y Pwyllgor yn cael ei gefnogi'n dda gennym ni yn ei waith. Yn gynyddol, rydym hefyd yn cefnogi gwaith Pwyllgorau eraill y Senedd.
- Amser staff sy'n gysylltiedig â'n gwaith ar y Fenter Twyll Genedlaethol.
- Gwaith i archwilio themâu sy'n codi o'n gwaith ar gyfrifon.
- Cymorth ar gyfer ein hymateb i faterion a ddygir i'n sylw gan aelodau'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig.

## Nodyn 2: Datblygiad sgiliau ariannol Cymru Gyfan

55 Defnyddir cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru i roi cymorth parhaus i'n rhaglen lwyddiannus sy'n darparu cyfleoedd i raddedigion a phrentisiaid o bob rhan o Gymru.

56 Mae'r cynnydd ar gyfer 2026-27 yn lwfio am godiad cyflog chwyddiannol o fis Ebrill 2026.

57 Ar hyn o bryd rydym yn cyflogi 68 o hyfforddeion a phrentisiaid gan roi cyfleoedd hyfforddi o safon fyd-eang iddynt a sicrhau cyflenwad o weithwyr cyllid proffesiynol y dyfodol ar gyfer sector cyhoeddus Cymru. tor.

58 Rydym yn defnyddio cyllid Cronfa Gyfunol Cymru i wneud y canlynol:

- darparu cyfleoedd i'n hyfforddeion graddedig fynd ar secondiad i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru
- targedu ein gweithgarwch recriwtio i wella amrywiaeth gymdeithasol a chynhwysiant cymdeithasol yn ein gweithlu a'r proffesiwn cyllid ehangach yng Nghymru.
- cyllido cynhadledd flynyddol i hyfforddeion y sector cyhoeddus ledled Cymru, sy'n hyrwyddo gwerth a phwysigrwydd gyrfa ym maes cyllid cyhoeddus; a hefyd
- rhoi cymorth gyda chostau hyfforddi ein rhaglen hyfforddiant i raddedigion, gan leihau'r costau a fyddai fel arall yn cael eu hadennill o ffioedd.

59 Ers 2015 rydym wedi croesawu 11 carfan o hyfforddeion ac 8 carfan o brentisiaid i Archwilio Cymru gyda chyfanswm o 191 o bobl ifanc yn cael cynnig y cyfle i astudio ar gyfer cymhwyster proffesiynol mewn cyfrifeg. Hyd yma, mae 8 o'r carfannau hynny wedi cwblhau eu hyfforddiant ac mae 71 o'n cyn-hyfforddeion bellach yn gyfrifwyr cwbl gymwysedig a 18 prentis wedi cwblhau eu cymhwyster AAT. O'r rhain, cafodd 51 gynnig rolau yn Archwilio Cymru ac mae 33 yn dal yn eu swyddi.

60 Ym mis Awst 2025, fe ymunodd 12 o raddedigion newydd a 4 prentis ag Archwilio Cymru.

61 £3.2 miliwn yw cyfanswm cost ein rhaglen i raddedigion a phrentisiaid ar gyfer 2025-26, y mae £927,000 ohono'n cael ei ddarparu o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau uchod. Telir gweddill y gost o'r ffioedd a godir ar gyrff a archwilir am y gwaith a wneir gan ein hyfforddeion a phrentisiaid.

62 Ceir dadansoddiad o sut yr ydym yn defnyddio cyllid Cronfa Gyfunol Cymru yn **Arddangosyn 4**.

**Arddangosyn 4 – Datblygiad sgiliau ariannol Cymru Gyfan (Cronfa Gyfunol Cymru)**

| | 2026-27 £'000 | 2025-26 £'000 | Newid £'000 |
|---|---|---|---|
| Secondiadau hyfforddeion a phrentisiaid | 370 | 355 | 15 |
| Costau hyfforddiant | 206 | 206 | - |
| Rheoli rhaglenni | 331 | 319 | 12 |
| Cynhadledd flynyddol | 20 | 20 | - |
| Cyfanswm a gyllidir o Gronfa Gyfunol Cymru | 927 | 900 | 27 |

## Nodyn 3: Y Gyfnewidfa Arfer Da

63 Rydym yn defnyddio cyllid a ddarperir gan Gronfa Gyfunol Cymru i redeg ein rhaglen Cyfnewidfa Arfer Da uchel ei bri ar gyfer cyrff cyhoeddus a'r trydydd sector ledled Cymru. Mae'r cyllid yn cefnogi'r tîm bach sy'n rheoli'r rhaglen yn uniongyrchol a'r amser sylweddol a fuddsoddir gan aelodau eraill o staff i gefnogi digwyddiadau a gweithgareddau sydd wedi'u bwriadu i rannu gwersi o'n gwaith.

64 Codir am amser staff sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn ôl cyfraddau ffioedd yn yr un ffordd â'n gwaith archwilio. Mae'r cynnydd ar gyfer 2026-27 yn adlewyrchu'r cynnydd arfaethedig yng nghyfraddau'r ffioedd o fis Ebrill 2026.

65 Yn 2025, mae ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar themâu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol 'O ymdrin â phroblemau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol: Yr her i wasanaethau cyhoeddus Cymru'. Mae'r themâu hynny'n cynnwys cost methiant mewn trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu, blaenoriaethu gwaith atal, mynd i'r afael â thwyll a gwallau a thirwedd gymhleth gwasanaethau cyhoeddus. Rydym hefyd yn darparu digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar sut yr ydym yn cydweithio i gynhyrchu cyfrifon Llywodraeth Leol o ansawdd mewn modd amserol.

66 Rydym wedi parhau i gyhoeddi ystod o allbynnau arfer da trwy ein tudalennau blogiau, podlediadau ac adnoddau.

67 Ceir manylion y digwyddiadau sydd ar ddod gennym ar ein gwefan.

## Nodyn 4: Y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI)

68 Ers 2015, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cefnogi egwyddor cyfranogi yn y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru am ddim cost i'r cyrff hynny. Fe wnaeth ein hadroddiad dwyflynyddol diweddaraf adnabod deilliannau gwerth £7.1 miliwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan gynyddu'r deilliannau cronnus i £56.5 miliwn ers 1996.

69 Heb y cyllid hwn, byddai angen i gostau gwneud y gwaith hwn gael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i'r cyrff sy'n cyfranogi fel ffioedd ychwanegol yn lle hynny, a hynny o bosibl yn arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y cyrff sy'n dewis cymryd rhan.

70 Mae cyllid ar gyfer ein gwaith dan y Fenter Twyll Genedlaethol yn codi / gostwng bob yn ail flwyddyn i gwrdd â chostau dwyflynyddol Swyddfa'r Cabinet ar gyfer gwirio data. Yn 2026-27 byddant yn codi £130,000 o'i gymharu â 2025-26.

71 Mae cost ein gwaith archwilio sy'n gysylltiedig â rheoli rhaglen y Fenter Twyll Genedlaethol wedi'i chynnwys yn y swm sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer gwaith archwilio yn Arddangosyn 3. Mae tabl 5 yn Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad llawn o'r gost.

## Nodyn 5: Gorwelion Archwilio

72 Datblygwyd Gorwelion Archwilio mewn ymateb i dirwedd archwilio fythol esblygol, tirwedd a fydd yn cael ei llunio gan dechnolegau sy'n newydd ac sy'n newid yn gyflym (gan gynnwys deallusrwydd artiffisial); galwadau cynyddol am adroddiadau ar gynaliadwyedd ac am sicrwydd ynghylch yr adroddiadau hynny; gofynion rheoleiddiol bythol gynyddol; a chynnydd yn yr hyn y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl o drefniadau archwilio ac atebolrwydd.

73 Bydd y datblygiadau hyn hefyd yn golygu ei bod hi'n ofynnol i ni archwilio'r sgiliau y bydd rhaid i ni eu datblygu mewn ymateb, ystyried sut y bydd angen i'n gweithlu esblygu ac adolygu siâp Archwilio Cymru dros y tymor hwy (fel y bydd angen i'r sector cyhoeddus ei hun drawsnewid dros y blynyddoedd a'r degawdau nesaf).

74 Mae ein prosiect Gorwelion Archwilio mewnol yn ceisio dwyn ynghyd y datblygiadau hynny sy'n hysbys ac sy'n dod i'r amlwg fel rhai a fydd yn siapio ein gwaith archwilio.

75 Mae Gorwelion Archwilio hefyd yn adnabod ein hanghenion cyfredol a'n hanghenion posibl yn y dyfodol ar gyfer buddsoddi mewn archwilio ac yn darparu fframwaith i werthuso llwyddiant y datblygiadau arfaethedig hynny. Bydd Gorwelion Archwilio'n cael ei ddiweddaru o leiaf yn flynyddol wrth i gynlluniau newydd gael eu datblygu a'u mireinio mewn ymateb i'r dirwedd newidiol hon.


76 Mae ein Strategaeth pum mlynedd yn darparu'r cyfeiriad ar gyfer Gorwelion Archwilio, ac mae Gorwelion Archwilio yn ei dro'n bwydo i mewn i'n strategaethau a chynlluniau eraill gan oleuo eu blaenoriaethau a'u cyfeiriad yn y dyfodol.

77 Rydym wedi datblygu Gweledigaeth sy'n gwneud technoleg yn greiddiol i'n gwaith. Mae'n pennu'r cyfeiriad ar gyfer Gorwelion Archwilio ac yn diffinio ein huchelgais yn y pen draw, sef cyflawni gwaith archwilio o ansawdd da.

## Ein **Gweledigaeth**

### Mae **archwiliad o ansawdd da**:

- yn **cydymffurfio** â safonau proffesiynol a disgwyliadau rheoleiddiol
- yn **effeithlon** ac yn rhoi gwerth am arian
- yn darparu **mewnwelediadau** amserol ac yn cael **effaith gynaliadwy**



### ...**yn cael ei gyflawni**:

- â **gweithlu medrus a dawnus** tu hwnt
- trwy ddulliau archwilio **trylwyr** ac **arloesol**
- trwy ddull sy'n **seiliedig ar ddata** gan ddefnyddio **offer digidol modern**

78 Mae Gorwelion Archwilio'n darparu fframwaith i'n galluogi i hwyluso pob un o'r ysgogwyr hynny ac i benderfynu sut orau i gyfeirio'r buddsoddiad sydd ar gael gennym i mewn i offer digidol newydd, datblygiad sgiliau a meysydd eraill fel y bo angen.

79 I wireddu'r Weledigaeth hon yn llawn rydym wedi amcangyfrif y bydd angen buddsoddi mwy nag £800,000 yn ychwanegol. Rydym yn cydnabod bod y lefel hon o gyllid yn annhebygol o fod ar gael ac rydym felly'n dyrannu £150,000 yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2026-27 i'n galluogi i gychwyn ar y daith hon. Byddwn hefyd yn ceisio ailflaenoriaethu adnoddau presennol lle gallwn i fuddsoddi ymhellach yn yr uchelgais hwn.

## Nodyn 6: Addasiad nad yw mewn arian parod

80 Yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2025-26, roedd symudiadau nad oeddent mewn arian parod yn cynnwys gostyngiadau o £408,000 ar gyfer dibrisiant a llog (gan gynnwys y rhai a oedd yn gysylltiedig ag IFRS16) a £187,000 ar gyfer y gofyniad cyfalafu dan IFRS16 a oedd yn gysylltiedig â symud ein swyddfa yng Ngorllewin Cymru. Cafodd y rhain eu gwrthbwyso gan gynnydd o £40,000 yn ein gofyniad arian parod ar gyfer rhyddhau darpariaeth a oedd yn cael ei dal mewn perthynas â dadfeiliadau ar y swyddfa a adawyd gennym yng Ngorllewin Cymru.

# Ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig

81 Ar gyfer 2026-27, mae'r unig addasiad nad yw mewn arian parod yn un mewn perthynas â dibrisiant a llog. (Gweler **Atodiad 2**, Tabl 6)

82 Mae ein cynllun ariannol tymor canolig (CATC) yn tybio y bydd ein hôl-groniad o waith archwilio'n cael ei glirio erbyn diwedd 2026 ac y byddwn, erbyn 2027-28, wedi cyflawni cyflwr sefydlog o ran gwneud gwerth blwyddyn o waith archwilio ym mhob blwyddyn ariannol.

83 Mae cynllun strategol y gweithlu wedi cael ei ddatblygu i'n helpu i reoli'r broses hon yn ogystal â sicrhau bod gennym weithlu sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

84 Fel a nodir yn Nodyn 5 uchod, gallai technoleg sy'n datblygu gael effaith sylweddol ar y ffordd yr ydym yn gwneud ein gwaith archwilio yn y dyfodol. Gallai'r newid hwnnw olygu bod angen buddsoddi ar ôl 2026-27 i sicrhau ein bod yn gallu manteisio ar dechnolegau sy'n dod i'r amlwg a'r effeithlonrwydd wrth gyflawni gwaith archwilio y gallai'r rhain ei ddwyn.

85 Bydd cyflymder a maint unrhyw newid o'r fath yn dibynnu'n gymaint ar barodrwydd digidol y cyrff a archwilir gennym ag y bydd ar Archwilio Cymru. Yn wir, yr hyn a fydd yn bwysicach o lawer iddynt hwy nag unrhyw welliant yn effeithlonrwydd gwaith archwilio fydd y trefniadau llywodraethu a phrosesau penderfynu cryfach a wneir yn bosibl gan systemau craidd gwell a defnydd o dechnoleg ddigidol. Ceir gwendidau sylweddol yn y maes hwn mewn sawl rhan o'r sector cyhoeddus a bydd hyn yn effeithio ar ein hasesiad o gost a photensial buddsoddi ar ein rhan ni.

86 O ystyried yr ansicrwydd hwnnw, nid ydym wedi cynnwys yn yr Amcangyfrif hwn y tabl CATC a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r Bwrdd yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu ein ffordd o feddwl mewn perthynas â'r potensial ar gyfer newid a'i oblygiadau fel bod hyn yn gallu cael ei adlewyrchu yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2027-28 a'r tu hwnt.

# Atodiadau

1 Cyllideb refeniw 2026-27

2 Cynllun Ffioedd drafft 2026-27

# 1 Cyllideb Adnoddau 2026-27

| | | Cyllideb 2026-27 £'000 | Cyllideb 2025-26 £'000 | Newid o UnFlwyddyn i'r Llall £'000 | Gweler Tabl |
|---|---|---|---|---|---|
| Treuliau | Costau staff | 24,500 | 23,749 | 751 | 1 |
| | Teithio a chynhaliaeth | 217 | 352 | (135) | |
| | Swyddfeydd | 731 | 718 | 13 | 2 |
| | TAW Anadferadwy | 500 | 500 | - | |
| | TGCh | 654 | 683 | (29) | 3 |
| | Llywodraethu Archwilio Cymru | 320 | 345 | (25) | - |
| | Hyfforddiant allanol | 443 | 368 | 75 | 4 |
| | Costau blynyddol y Fenter Twyll Genedlaethol | 95 | 95 | - | 5 |
| | Dibrisiant a llog | 411 | 408 | 3 | 6 |
| | Cyflenwadau a gwasanaethau eraill | 1,087 | 1,305 | (218) | |
| | Targed arbedion | (300) | (200) | (100) | |
| | Costau cylchol y Fenter Twyll Genedlaethol | 130 | - | 130 | 5 |
| | **Cyfanswm treuliau** | **28,788** | **28,323** | **465** | |

| | | Cyllideb 2026-27 £'000 | Cyllideb 2025-26 £'000 | Newid o UnFlwyddyn i'r Llall £'000 | Gweler Tabl |
|---|---|---|---|---|---|
| Incwm Ffioedd | Ffioedd Archwilio | 17,440 | 17,612 | (172) | |
| | Ffioedd ardystio grantiau | 1,051 | 998 | 53 | |
| | **CYFANSWM INCWM** | **18,491** | **18,610** | **(119)** | |
| **Cyfalaf** | | **180** | **280** | **(100)** | **Arddangosyn 2** |
| **Cyfalaf IFRS16** | | **-** | **187** | **(187)** | **Arddangosyn 2** |
| **Cyfanswm i'w gyllido o Gronfa Gyfunol Cymru** | | **10,477** | **10,180** | **297** | **Arddangosyn 3** |

## Tabl 1: Costau staff

| | 2026-27 £'000 | 2025-26 £'000 | Newid £'000 |
|---|---|---|---|
| Cyflogau staff gan gynnwys pensiwn ac YG | 25,154 | 24,228 | 926 |
| Arbedion o drosiant staff | (1,258) | (1,208) | (50) |
| Staff ar gontract byrdymor | 604 | 729 | (125) |
| Cyfanswm costau staff | 24,500 | 23,749 | 751 |

## Tabl 2: Swyddfeydd

| | 2026-27 £'000 | 2025-26 £'000 | Newid £'000 |
|---|---|---|---|
| Rhenti mewn perthynas â lesoedd | 283 | 283 | - |
| Ardrethi Busnes | 149 | 149 | - |
| Cyfleustodau a chostau eraill swyddfeydd | 299 | 286 | 13 |
| Cyfanswm swyddfeydd | 731 | 718 | 13 |

## Tabl 3: TGCh

| | 2026-27 £'000 | 2025-26 £'000 | Newid £'000 |
|---|---|---|---|
| Seilwaith cwmwl | 200 | 200 | - |
| Cymwysiadau Busnes TG | 158 | 195 | (37) |
| Seiberddiogelwch | 195 | 195 | - |
| Caledwedd, rhentu llinellau a chostau TG eraill | 101 | 93 | 8 |
| Cyfanswm TGCh | 654 | 683 | (29) |

## Tabl 4: Hyfforddiant allanol

| | 2026-27 £'000 | 2025-26 £'000 | Newid £'000 |
|---|---|---|---|
| Hyfforddeion Archwilio Ariannol Astudiaethau Proffesiynol | 206 | 206 | - |
| Datblygu sefydliadol | 199 | 159 | 40 |
| Hyfforddiant technegol | 38 | 3 | 35 |
| Cyfanswm hyfforddiant allanol | 443 | 368 | 75 |

## Tabl 5: NFI

| | 2026-27 £'000 | 2025-26 £'000 | Newid £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwirydd Ceisiadau'r Fenter Twyll Cenedlaethol (App Check). | 50 | 50 | - |
| Paru data ychwanegol | 45 | 45 | - |
| Taliadau i Swyddfa'r Cabinet (bob yn ail flwyddyn) | 130 | - | 130 |
| **Cyfanswm y Fenter Twyll Genedlaethol** | **225** | **95** | **130** |

## Tabl 6: Dibrisiant a llog (nad yw'n arian parod)

| | 2026-27 £'000 | 2025-26 £'000 | Newid £'000 |
|---|---|---|---|
| Dibrisiant | 320 | 320 | - |
| Dibrisiant a llog (IFRS16) | 291 | 288 | 3 |
| Taliadau rhenti mewn perthynas â lesoedd (arian parod) | (200) | (200) | - |
| Cyfanswm Dibrisiant a llog | 411 | 408 | 3 |

# 2 Cynllun Ffioedd drafft 2026-27

# Cynllun Ffioedd 2026-27

Mae hwn yn gynllun ffioedd a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru dan adran 24 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Gosodir y cynllun ffioedd hwn gerbron y Senedd dan adran 24(4)(c) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Swyddfa Archwilio Cymru 2025



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Dr Ian Rees**
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru

# Cynnwys


## Trosolwg

Cyflwyniad 29

Cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd 32

Codi ffioedd 35

## Atodiadau

A Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24 37

B Rhestr o ddeddfiadau y gall Swyddfa Archwilio Cymru ac y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd oddi tanynt 39

C Graddfeydd ffioedd o 1 Ebrill 2026 41

# Cyflwyniad

1 Paratowyd y Cynllun Ffioedd hwn dan adran 24 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf) (**Atodiad 1**). Mae'r Cynllun Ffioedd, yn dilyn ei gymeradwyo gan y Senedd, yn darparu'r sail yr ydym yn codi ffioedd arni.

2 Mae'r Cynllun Ffioedd hwn yn nod:

- y deddfiadau y byddwn yn codi ffioedd archwilio oddi tanynt (Atodiad 2).
- y trefniadau ar gyfer pennu'r ffioedd hynny, sef naill ai:
- graddfeydd ffioedd sy'n nodi amrediadau ffioedd ar gyfer meysydd penodol o fewn gwaith archwilio mewn llywodraeth leol; neu
- gyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith nas cwmpesir gan raddfeydd ffioedd.

3 Yn fras, mae 64% o'n gwariant yn cael ei gyllido trwy ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. Darperir y 36% sy'n weddill o Gronfa Gyfunol Cymru trwy gynnig y gyllideb a gaiff ei basio gan y Senedd.

4 Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol bod y ffioedd a godir gennym **yn methu bod yn uwch** na chost lawn gwaith yn y corff hwnnw i gyflawni'r swyddogaeth y mae a wnelo'r ffi â hi. Rydym yn pennu ein ffioedd archwilio yn seiliedig ar amcangyfrif o'n sylfaen gostau, y cymysgedd o sgiliau yr amcangyfrifir y bydd ei angen ar gyfer gwaith archwilio a nifer y diwrnodau yr amcangyfrifir y bydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Nid ydym yn gwneud ac ni chawn wneud elw o'n gwaith. Pennir cyfraddau ein ffioedd ar lefel sy'n golygu ein bod yn adennill y gost lawn a amcangyfrifwyd ond dim mwy na hynny.

5 Ceir tensiwn rhwng darparu ffi rhag blaen ar gyfer cyrff archwilio am waith a fydd yn cael ei wneud ar archwiliadau penodol a bod â chyfundrefn ddigon hyblyg sy'n cydnabod bod amrywiadau'n anochel. Rydym yn pennu ein ffioedd archwilio yn seiliedig ar amcangyfrif o'n gwariant, y cymysgedd o sgiliau yr amcangyfrifir y bydd ei angen a nifer y diwrnodau yr amcangyfrifir y bydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Lle mae'r gwaith sy'n ofynnol yn sylweddol fwy na'r amcangyfrif gwreiddiol, oherwydd cymhlethdodau a brofwyd yn ystod yr archwiliad, gallwn godi ffi uwch, fel a ganiateir gan ddeddfwriaeth.

6 Fel a nodwyd yn ein hymgynghoriad ynghylch ffioedd arfaethedig ym mis Medi 2025, fe gofiwch ein bod, ar gyfer 2025-26, wedi adnabod mesurau effeithlonrwydd a oedd yn ein galluogi i gynyddu cyfraddau ein ffioedd lai nag 1.7% er ein bod yn wynebu pwysau chwyddiannol ar ein sylfaen gostau, a helaethir gan gystadleuaeth ffyrnig am archwilwyr y sector cyhoeddus, a galwadau bythol gynyddol mewn perthynas ag ansawdd. Ar yr un pryd, fe wnaeth ein hadolygiad o'r dull archwilio ISA315 newydd ein galluogi i ostwng ein ffioedd gwirioneddol am archwilio cyfrifon 3% ar gyfartaledd.

7 Ar gyfer 2026-27 rydym yn gorfod cynyddu cyfraddau ein ffioedd 5.3% ar gyfartaledd i gwrdd â'r un cyfuniad hwnnw o bwysau chwyddiannol ar ein sylfaen gostau a disgwyliadau ynglŷn ag ansawdd. I awdurdod unedol mawr â throsiant o £1 biliwn, bydd hyn yn trosi'n gynnydd yn nhermau arian parod yn ein ffi archwilio nodweddiadol o £14,000 yn unig. I gorff llai megis Awdurdod Tân ac Achub, mae'r cynnydd yn cyfateb i oddeutu £2,000.

8 Gyda'i gilydd, bydd cyfraddau ein ffioedd dros y 2 flynedd ariannol – 2025-26 a 2026-27 – wedi cynyddu 7.1%. Mae'r effeithlonrwydd yr ydym wedi'i ysgogi yn ein gwaith yn golygu, er gwaethaf y cynnydd hwn yn nghyfraddau'r ffioedd, y bydd y ffi gyfartalog am ein gwaith archwilio cyfrifon wedi cynyddu **ychydig dros 2%** dros y cyfnod hwnnw o 2 flynedd.

9 Mae adroddiad diweddar gan Audit Reform Lab yn trafod methiant archwilio cyhoeddus yn Lloegr a'r costau sylweddol sy'n gysylltiedig â hyn. Dengys yr adroddiad fod archwilio cyhoeddus yng Nghymru mewn sefyllfa well a mwy cost-effeithiol o lawer.

10 1Rydym yn llwyr ymwybodol o'r pwysau sy'n wynebu'r cyrff a archwilir gennym ac rydym wedi herio ein model gweithredu i sicrhau bod ein ffioedd archwilio'n parhau i ddarparu gwerth am arian gan barhau i fuddsoddi yn ansawdd gwaith archwilio sy'n ganolog i bob penderfyniad a wnawn.

11 Mae'r ffi wirioneddol y bydd unrhyw gorff unigol a archwilir yn ei thalu'n dibynnu nid dim ond ar gyfraddau ein ffioedd ni ond ar faint y gwaith a'r cymysgedd o sgiliau y bydd ei angen.

12 Aethom y tu hwnt i'r gofynion statudol i ymgynghori ynghylch ein ffioedd ac, ym mis Medi 2025, fe wnaethom ymgynghori â'r holl gyrff a archwilir a rhanddeiliaid eraill ynghylch cyfraddau a graddfeydd arfaethedig ein ffioedd ar gyfer 2026-27.

13 Cawsom 17 o ymatebion y gwnaeth 10 ohonynt fynegi pryderon ynghylch y cynnydd uchod yn unol â chwyddiant yng nghyfraddau ein ffioedd ar gyfer 2026-27. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ysgrifennu at yr holl ymatebwyr i egluro'r rhesymau dros y cynnydd hwn a'r hyn yr ydym yn ei wneud i liniaru'r effaith ar ffioedd archwilio.

14 Mae’r Bwrdd wedi myfyrio ynghylch yr ymatebion hyn ac wedi ymateb trwy adnabod effeithlonrwydd pellach i leihau’r cynnydd arfaethedig i gyfartaledd o 5.3%.

15 Rhaid i’n ffioedd yng Nghymru gael eu hystyried hefyd yn erbyn y sefyllfa yn Lloegr lle gwnaeth PSAA[3] gyhoeddi codiadau mewn ffioedd o 151% ar gyfer archwilio cyfrifon 2023-24 ac yna codiadau o 9.5% ar gyfer 2024-25 ac yn ddiweddar cynnydd o 4% ar gyfer 2025-26.

3 Public Sector Audit Appointments

# Cyfraddau ein ffioedd a graddfeydd ein ffioedd

## Cyfraddau ein ffioedd 2026-27

1 Caiff cyfraddau arfaethedig ein ffioedd ar gyfer 2026-27 eu nodi yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: cyfraddau ffioedd arfaethedig 2026-27**

| Gradd | Cyfradd (£ yr awr) 2026-27 | Cyfradd (£ yr awr) 2025-26 |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Archwilio | 187 | 183 |
| Rheolwr Archwilio | 144 | 141 |
| Arweinydd Archwilio | 118 | 115 |
| Uwch Archwilydd | 95 | 91 |
| Archwilydd | 72 | 66 |
| Hyfforddai Graddedig | 63 | 59 |
| Prentis | 49 | 47 |

2 Rydym yn bwriadu parhau i ddarparu mynediad at y Fenter Twyll Genedlaethol yn rhad ac am ddim.

## Graddfeydd Ffioedd Llywodraeth Leol 2026-27

3 Mae graddfeydd ffioedd yn fodd i reoleiddio cost archwilio cyhoeddus, trwy bennu terfynau a thrwy adolygu ffioedd yn erbyn y terfynau hynny. Mae graddfeydd ffioedd hefyd yn darparu fframwaith i archwilwyr asesu faint o waith archwilio blynyddol sy'n angenrheidiol a'r ffi i'w chodi am y gwaith hwnnw mewn corff penodol a archwilir.

4 Caiff graddfeydd ein ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon ariannol 2025-26, ynghyd â gwaith archwilio perfformiad a gyllidir gan ffioedd a fydd yn cael ei wneud yn 2026-27, eu darparu yn **Atodiad C** mewn perthynas ag awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throseddu, prif gwnstabliaid, cynghorau tref a chymuned, a chronfeydd pensiwn llywodraeth leol.

5 Darperir graddfa ffioedd ar wahân mewn perthynas â'r Fenter Twyll Genedlaethol.

6 Mae gwaith archwilio perfformiad yn cynnwys archwiliadau o ddatblygu cynaliadwy, archwiliadau gwybodaeth gwella, asesiadau gwella ac arolygiadau arbennig. Nid yw'r holl swyddogaethau hyn yn berthnasol i bob math o gorff a archwilir.

7 Mae ffioedd archwilio amcangyfrifedig cyrff a archwilir nas cwmpesir gan y gofyniad statudol am raddfa ffioedd yn cael eu cyfrifo yn yr un ffordd â ffioedd y rhai a gwmpesir gan y gofyniad hwnnw – hynny yw, trwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd a gyhoeddir yn y Cynllun Ffioedd hwn i'r cymysgedd o sgiliau yn y tîm a'r oriau o fewnbwn yr amcangyfrifir y bydd eu hangen ar gyfer yr archwiliad.

8 Mae archwilwyr yn gwneud gwaith ardystio grantiau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae faint o waith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn ddibynnol ar nifer y cynlluniau y mae'n rhaid eu harchwilio a nifer y cyrff a archwilir sy'n cyfranogi yn y cynlluniau hynny. Cyfrifir taliadau ar gyfer y gwaith hwn gan ddefnyddio cyfraddau'r ffioedd a chan adlewyrchu maint, cymhlethdod neu unrhyw faterion penodol mewn perthynas â'r grant dan sylw.

9 Mae cyfraddau'r ffioedd yn berthnasol i'r holl waith archwilio ac eithrio i'r graddau y mae graddfeydd y ffioedd, lle y bônt yn berthnasol, yn rheoleiddio'r swm y dylid ei godi (neu yn achos gwaith a wneir dan gytundebau yr ymrwymwyd iddynt cyn 1 Ebrill 2014, mae'r cyfraddau yn ôl y telerau y cytunwyd arnynt). Os yw'n ymddangos wedyn bod y gwaith y bydd angen ei wneud mewn archwiliad penodol yn sylweddol wahanol i'r hyn a ddychmygwyd yn wreiddiol, gallwn godi ffi sy'n wahanol i'r un yr hysbyswyd yn ei chylch yn wreiddiol.

10 Yn achos darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol eraill, bydd ffioedd yn cael eu codi yn unol â'r cytundeb perthnasol, ar yr amod bod symiau o'r fath yn cael eu capio ar gost lawn darparu'r gwasanaeth.

11 I gyflawni cyfrifoldebau statudol, weithiau mae angen i archwilwyr wneud gwaith sy'n mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau cyffredinol. Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwilio eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach mewn perthynas â chwestiynau a gwrthwynebiadau etholwyr, ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd taliadau am y math yma o waith yn adlewyrchu natur y gwaith sy'n ofynnol ac fe'u cyfrifir trwy gymhwyso cyfraddau'r ffioedd a gyhoeddwyd yn y Cynllun Ffioedd hwn i'r cymysgedd o sgiliau yn y tîm a'r oriau o fewnbwn y mae eu hangen ar gyfer y gwaith.

12 Lle mae angen cymorth arbenigol neu gyngor cyfreithiol neu broffesiynol arall, byddwn yn codi ar gyrff archwilio am hyn yn ychwanegol at gost ein staff archwilio ni.

# Codi ffioedd

13 Bydd Cyfarwyddwr Ymgysylltu pob corff yn esbonio’r cymysgedd o sgiliau y mae ei angen ar gyfer yr archwiliad a’r ffactorau sy’n dylanwadu ar y ffi ar y cyfan. Cytunir ar drefniadau codi tâl gyda chyrff a archwilir, a gallant gwmpasu taliadau untro, cyfnodol, rheolaidd neu flynyddol, fel y bo’n briodol o dan yr amgylchiadau.

14 Disgwylir i gyrff a archwilir dalu ein hanfonebau o fewn eu targed perfformiad ar gyfer taliadau i gredydwyr, sef deng niwrnod fel arfer. Mae’n bosibl y byddwn yn codi tâl am y costau gweinyddol a ysgwyddir wrth fynd ar drywydd taliadau hwyr.

15 Os yw hynny’n ofynnol yn ôl gweithdrefnau cyrff a archwilir, dylid codi archeb brynu am y ffi archwilio y cytunwyd arni cyn cyflwyno anfonebau.

16 Ar ôl cwblhau aseiniadau archwilio, byddwn yn asesu'r gwir gostau a ysgwyddwyd wrth gwblhau’r aseiniad o'i gymharu â'r ffi a godwyd. Byddwn yn ad-dalu unrhyw ffi ormodol sy’n fwy na’r gost ac, i'r gwrthwyneb, gallwn godi am gostau ychwanegol lle mae'r ffi’n llai na’r costau. Byddwn yn prosesu ad-daliadau a thaliadau ychwanegol mewn modd sy'n ceisio lleihau costau gweinyddol, megis trwy wrthbwyso yn erbyn ffioedd yn y dyfodol neu ffioedd am agweddau eraill ar weithgarwch archwilio.

# Atodiadau

A Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24

B Rhestr o'r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd oddi tanynt ac y mae'n rhaid iddi wneud

C Graddfeydd Ffioedd 2026-27

# A Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24

(1) Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru baratoi cynllun sy'n ymwneud â chodi ffioedd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

(2) Rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol:

- (a) rhestr o'r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt;
- (b) pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, y raddfa honno neu'r graddfeydd hynny;
- (c) pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi swm i'w godi, y swm hwnnw;
- (d) pan nad oes darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, na rhagnodi swm, y modd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfrifo'r ffi a godir.

(3) Caiff y cynllun wneud y canlynol ymysg pethau eraill:

- (a) cynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol, a
- (b) darparu ar gyfer yr adegau a'r modd y bydd taliadau yn cael eu gwneud.

(4) O ran y cynllun:

- (a) rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ei adolygu o leiaf unwaith mewn blwyddyn galendr;
- (b) caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei ddiwygio neu ei ail-wneud ar unrhyw adeg, ac
- (c) rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ei osod (a gosod unrhyw ddiwygiad iddo) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol [[4]].

4 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli yn cyfeirio at y 'Cynulliad Cenedlaethol' er i'r enw newid i 'Y Senedd'.

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd o dan:

(a) adran 64F o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ffioedd am baru data), neu

(b) adran 27A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd), i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ddiwygio'r cynllun i gynnwys y raddfa neu'r graddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru yn lle'r rhai a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

(6) Nid oes rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol os mai diwygiad a wneir yn unol ag isadran (5) yw'r unig ddiwygiad i gynllun.

(7) Bydd y cynllun yn cael effaith pan fydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol neu, yn achos diwygiad a wneir yn unol ag isadran (5), unwaith y bydd wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad.

(8) Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyhoeddi'r cynllun (ac unrhyw ddiwygiad iddo) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi iddo gael effaith.

# B Rhestr o'r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd oddi tanynt ac y mae'n rhaid iddi wneud

**Rhestr o'r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd oddi tanynt ac y mae'n rhaid iddi wneud**

| Natur y gwaith | Deddfiadau |
|---|---|
| **Caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol** | |
| Archwiliad o gyfrifon gan yr Archwilydd Cyffredinol (ac eithrio cyfrifon llywodraeth leol). | Adran 23(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Astudiaethau gwerth am arian a gynhelir drwy gytundeb (ac eithrio sefydliadau addysgol a chyrff llywodraeth leol—gweler isod). | Adran 23(3)(a), (b) a (c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Ymchwiliad, ardystiad neu adroddiad o dan adran 31 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 mewn cysylltiad â Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru. | Adran 23 (3) (ba) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2013 |
| Ymchwiliad o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2) (ymchwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy). | Adran 23(3)(ca) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Unrhyw swyddogaethau sydd gan awdurdod perthnasol a arferir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol ac a gyflawnir drwy gytundeb, ac unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol sydd i'w darparu gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol drwy drefniant o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. | Adran 23(3)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Archwiliad eithriadol o gyfrifon corff llywodraeth leol. | Adran 37(8) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |

| Natur y gwaith | Deddfiadau |
|---|---|
| Cyngor a chymorth a ddarperir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. | Adran 145D(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 Ceir gwneud telerau talu yn unol â chynllun ar gyfer codi ffioedd o dan a24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2013 yn unig |
| **Mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi graddfeydd ffioedd ar gyfer y gweithgareddau canlynol** | |
| Archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol | Adran 20(A1)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| Cymorth i Brif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant Cymru | Adran 41A(6) o Ddeddf Addysg 1997 |
| Astudiaethau sy'n ymwneud â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (cymdeithasau tai) | Adran 145C(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 |
| Astudiaethau ar gais cyrff llywodraeth leol | Adran 20(A1)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| Astudiaethau gweinyddu budd-daliadau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol | Adran 45(7) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| Gwasanaethau ardystio grantiau | Adran 23(4)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Astudiaethau ar gais cyrff addysgol | Adran 23(4)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Archwiliadau gwybodaeth gwelliant, asesiadau gwelliant ac arolygiadau arbennig o Awdurdodau Gwella Cymru | Adran 27 o Fesur Llywodraeth Cymru (Cymru) 2009 |
| Arolygiadau arbennig o brif gynghorau | Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |

# C Graddfeydd Ffioedd 2026-27

## Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wneir o dan y Fenter Twyll Genedlaethol (paru data)

17 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter Twyll Genedlaethol gan ddefnyddio ei bwerau paru data statudol o dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

18 Mae’r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau a thrafodiadau a allai fod yn dwyllodrus neu’n wallus. Mae’r Fenter Twyll Genedlaethol wedi bod yn offeryn hynod effeithiol i ganfod ac atal twyll a gordaliadau.

19 Adnabu ein hadroddiad dwyflynyddol diweddar ddeilliannau gwerth £7.1 miliwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy’n cynyddu’r arbedion cronnus i £56.5 miliwn ers 1996.

20 Ers mis Ebrill 2015, mae’r Senedd wedi bod yn talu costau rhedeg y Fenter Twyll Genedlaethol trwy daliad o Gronfa Gyfunol Cymru. Bwriad hyn yw annog sefydliadau i gymryd rhan yn wirfoddol a symleiddio’r trefniadau ar gyfer cyfranogwyr gorfodol. Fel sy’n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth, dangosir y ffioedd ar gyfer cyfranogwyr gorfodol yn **Arddangosyn 2**.

**Arddangosyn 2: Ffioedd y Fenter Twyll Genedlaethol s**

| | Ffi 2025-26 |
|---|---|
| Awdurdod unedol; comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid; awdurdodau tân ac achub; ymddiriedolaethau’r GIG; byrddau iechyd lleol | Dim |
| Cyfranogwyr gwirfoddol | Dim |
| Hefyd, gellir rhoi mynediad i’r holl gyfranogwyr at offeryn gwirio ceisiadau’r Fenter Twyll Cenedlaethol (App Check). | Dim |

# Graddfeydd ffioedd ar gyfer cyrff Llywodraeth Leol

## Awdurdodau unedol

### Arddangosyn 3: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2025-26

| | Amrediad ffioedd | | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £miliwn | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| 100 | 146 | 172 | 198 | 166 |
| 200 | 176 | 207 | 238 | 200 |
| 300 | 196 | 230 | 265 | 222 |
| 400 | 211 | 249 | 286 | 240 |
| 500 | 224 | 264 | 303 | 255 |
| 600 | 235 | 277 | 319 | 267 |
| 700 | 245 | 289 | 332 | 279 |
| 800 | 254 | 299 | 344 | 289 |
| 900 | 262 | 309 | 355 | 298 |
| 1,000 | 270 | 317 | 365 | 306 |
| 1,100 | 277 | 325 | 374 | 315 |
| 1,200 | 283 | 333 | 383 | 322 |

### Arddangosyn 4: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2026-27

| | Amrediad ffioedd | | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob awdurdod unedol | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| | 114 | 121 | 137 | 118 |

## Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol

### Arddangosyn 5: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2025-26

| | Amrediad ffioedd | | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob cronfa pensiwn | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| | 44 | 58 | 61 | 56 |

## Awdurdodau Tân ac Achub

### Arddangosyn 6: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2025-26

| | Amrediad ffioedd | | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £miliwn | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| 20 | 43 | 50 | 58 | 49 |
| 40 | 52 | 61 | 70 | 59 |
| 60 | 57 | 68 | 78 | 65 |
| 80 | 62 | 73 | 84 | 70 |
| 100 | 66 | 77 | 89 | 75 |

### Arddangosyn 7: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2026-27

| | Amrediad ffioedd | | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob awdurdod tân ac achub | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| | 20 | 21 | 24 | 18 |

## Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

### Arddangosyn 8: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2025-26

| | Amrediad ffioedd | | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros £miliwn** | **Isafswm £'000** | **Canolrif £'000** | **Uchafswm £'000** | **Canolrif £'000** |
| 2 | 27 | 31 | 36 | 30 |
| 4 | 32 | 38 | 43 | 36 |
| 6 | 36 | 42 | 48 | 40 |
| 8 | 38 | 45 | 52 | 44 |
| 10 | 41 | 48 | 55 | 46 |

### Arddangosyn 9: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2026-27

| | Amrediad ffioedd | | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| **Pob awdurdod parc cenedlaethol** | **Isafswm £'000** | **Canolrif £'000** | **Uchafswm £'000** | **Canolrif £'000** |
| | 22 | 24 | 27 | 23 |

## Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

21 Mae archwilwyr yn cynnal archwiliadau o ddau gorff statudol mewn ardal heddlu – y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid. Mater i archwilwyr benderfynu arno fydd rhannu cyfanswm y ffi rhwng y ddau gorff mewn ardal heddlu benodol, ar sail gofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredol a roddwyd ar waith gan bob corff.

**Arddangosyn 10: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2025-26**

| | Amrediad ffioedd cyfunol ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid | | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros cyfunol Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid £ miliwn** | **Isafswm £'000** | **Canolrif £'000** | **Uchafswm £'000** | **Canolrif £'000** |
| 50 | 74 | 85 | 96 | 82 |
| 100 | 87 | 100 | 114 | 97 |
| 150 | 96 | 111 | 126 | 107 |
| 200 | 103 | 119 | 136 | 115 |
| 250 | 108 | 126 | 144 | 122 |
| 300 | 113 | 132 | 150 | 127 |
| 350 | 118 | 137 | 156 | 132 |

## Cynghorau tref a chymuned ag incwm neu wariant blynyddol o dan £2.5 miliwn

22 Mae cynghorau tref a chymuned Cymru yn ddarostyngedig i gyfundrefn archwilio sicrwydd cyfyngedig. Gwneir y trefniadau archwilio i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ni chomisiynir yr archwiliad gan gynghorau unigol.

23 Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol bapur yn nodi sut y bydd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal ar gylch tair blynedd fel a nodir yn **Arddangosyn 11**.

**Arddangosyn 11: Cylch archwilio tair blynedd ar gyfer cynghorau tref a chymuned**

| | Grŵp A | Grŵp B | Grŵp C |
|---|---|---|---|
| Archwiliadau 2024-25 | Archwiliad llawn | Archwiliad sylfaenol | Archwiliad sylfaenol |
| Archwiliadau 2025-26 | Archwiliad sylfaenol | Archwiliad llawn | Archwiliad sylfaenol |
| Archwiliadau 2026-27 | Archwiliad sylfaenol | Archwiliad sylfaenol | Archwiliad llawn |

24 Seilir taliadau am y gwaith hwn ar yr amser a gymerir i gwblhau'r archwiliad yn ôl taliadau sy'n defnyddio'r cyfraddau ffioedd a nodir yn **Arddangosyn 1** ar dudalen 32.

25 Mae Arddangosyn 12 yn darparu amrediad y ffioedd ar gyfer cynghorau o wahanol feintiau a fesurir yn ôl incwm a gwariant. Mae'r amrediadau hyn sydd wedi'u diweddaru'n ystyried profiad Archwilio Cymru o ffioedd a gododd o archwiliadau 2021-22 i 2024-25.

**Arddangosyn 12: amcangyfrif o'r taliadau amser ar gyfer archwilio cyfrifon cynghorau tref a chymuned 2025-26**

| | Band 1 (<£10k) | Band 2 (<£25k) | Band 3 (<£50k) | Band 4 (<£100k) | Band 5 (<£500k) | Band 6 (>£500k) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio trafodion | £250-£500 | £300-£700 | £500-£900 | £600-£1,010 | £600-£1,260 | £800-£1,510 |
| Gweithdrefnau cyfyngedig | £200-£300 | £200-£300 | £200-£300 | £250-£350 | £250-£350 | £250-£350 |

## Cyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith arall ym myd llywodraeth leol

26 Heblaw am y mathau hynny o gyrff y mae graddfeydd ffioedd wedi eu rhagnodi ar eu cyfer fel a ddangosir uchod, ceir nifer fach o fathau eraill o gyrff llywodraeth leol lle mae ein proses o ragnodi’r raddfa ffioedd yn fater o drosi’r gofynion o ran adnoddau yn ffioedd wedi’u seilio’n uniongyrchol ar gostau cyflawni’r gwaith neu drwy gymhwyso’r cyfraddau ffioedd fel a nodir yn Arddangosyn 1. Bydd hyn yn cynnwys archwiliadau o Gydbwyllgorau Corfforedig. Mae’n dal yn wir, ar gyfer archwiliadau o’r cyrff hyn, ein bod yn defnyddio dull cwbl gynhwysfawr o gynllunio’r archwiliadau.

27 Ar gyfer cyrff llywodraeth leol o bob math, er mwyn iddo gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, mae angen i’r Archwilydd Cyffredinol wneud gwaith sy’n mynd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol weithiau (y rhai a nodir yn adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac yn adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015). Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliad eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach mewn cysylltiad â heriau gan etholwyr ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd taliadau am y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith sy’n ofynnol.

28 Gall archwilwyr hefyd wneud gwaith ardystio grantiau mewn cyrff llywodraeth leol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae faint o waith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau sy’n cael eu harchwilio a nifer y cyrff a archwilir sy’n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Codir taliadau am y gwaith hwn fesul awr ac mae’n adlewyrchu maint, cymhlethdod a/neu unrhyw faterion sy’n ymwneud â’r grant dan sylw fel a nodir yn **Arddangosyn 13**.

**Arddangosyn 13: amcangyfrifon o gyfrannau cymharol graddau staff archwilio sydd i'w defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o waith grantiau.**

| Gradd y staff | Cymysgedd staff grantiau cymhleth % | Cymysgedd o staff pob math arall o grantiau % |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr ymgysylltu | 1 to 2 | 0 to 1 |
| Rheolwr Archwilio | 4 to 6 | 1 to 2 |
| Arweinydd Archwilio | 18 to 21 | 12 to 16 |
| Archwilydd/hyfforddai graddedig/ prentis | 71 to 77 | 81 to 87 |

Mae grantiau cymhleth yn cynnwys:

- BEN01 Cynllun budd-daliadau tai a'r dreth gyngor
- LA01 Ffurflen ardrethi annomestig cenedlaethol
- PEN05 Ffurflen pensiynau athrawon

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.